Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Catrin Jones, Bethan Thomas a Helen Valentine ar ennill gwobrau yng nghystadlaethau Llyfrgell Dyfed.

Cip, Coeden a Chant

Bu nifer o'r plant yn Theatr y Werin yn ddiweddar i weld perfformiad cwmni'r Arad Goch o 'Cip, Coeden a Chant', drama i ddathlu canmlwyddiant cylchgronau'r Urdd. Mwynhawyd y perfformiad yn fawr iawn wrth geisio darganfod pwy a pham i rywun ddwyn gwerth canmlynedd o straeon cylchgronau'r Urdd.

Eisteddfod yr Urdd

Yn ystod wythnos y Sulgwyn bu Meilyr Howells a Pharti Dawns dan 12 yn cynrychioli Cerediigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Rhuthun. Ni chafwyd llwyddiant y tro yma ond bu'r profiad yn werthfawr tu hwnt ac yn gymorth ar gyfer y dyfodol. Bu Sara Lathwood a Nicky Wilkins yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth Cerameg, y naill yn cipio'r ail wobr a'r llall yn drydedd. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt.